fferm cyfan, ac maent yn awr yn cael eu rheoli ar gyfer bywyd gwyllt. Mae cynllun Tir Cymen hefyd wedi golygu gostyngiad yn nifer y stoc a gedwir ar y glaswelltir sydd heb ei wella ar y fferm. Mae hyn wedi caniatáu i'r ardaloedd hyn gynnal mwy o amrywiaeth mewn rhywogaethau planhigion a bywyd gwyllt cysylltiedig. Mae'n amlwg bod cytundeb Tir Cymen ar y fferm hon wedi diogelu a helaethu nifer y cynefinoedd oedd dan fygythiad.

Mae Aber Hyddnant yn enghraifft o fferm ucheldir da byw gyda dwy rywogaeth sydd dan fygythiad o fewn ei ffiniau; sef y dyfrgi a'r ysgyfarnog brown. Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru a'r DU yn nodi'n benodol y dylid defnyddio cynlluniau fel Tir Gofal er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion y rhywogaethau hyn. Mae Tir Gofal yn cynnig cyfle i ychwanegu at amgylchedd y fferm er mwyn cwrdd â'r anghenion cadwraeth antur yma. Er hynny, golygodd diffyg cyllid ar gyfer Tir Gofal bod cais cychwynnol Aber Hyddnant i ymuno â chynllun Tir Gofal wedi cael ei wrthod ac felly roedd y cynefinoedd pwysig ar y fferm yn dal dan fygythiad. Ar ben hynny, o ganlyniad i fethu ymuno â Thir Gofal, gorfodwyd i Mr Williams ddod o hyd i gyflogaeth arall i ffwrdd o'r fferm er mwyn ychwanegu at ei incwm, ac felly fe'i gorfodir bellach i reoli ei fferm ar sail rhan amser. Derbyniwyd cais Aber Hyddnant i ymuno â'r cynllun yn unig ar ôl i Tir Gofal dderbyn dyraniad o gyllid ychwanegol. Mae'r achos hwn yn dangos y budd sylweddol a ddaw yn sgil dyrannu arian ychwanegol i gynllun amaethyddol-amgylcheddol.

Fferm ucheldir da byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri yw Rhydlanfair. Mae bron i hanner y fferm ar hyn o bryd yn cael ei rheoli o dan gytundebau amaethyddol-amgylcheddol cyfredol. Mae hyn yn cynnwys 150Ha o brysgwydd dwarf y waun; sy'n cael ei gydnabod fel prysgwydden o bwysigrwydd rhyngwladol. Ym 1999, yr oedd Mr Williams yn bwriadu ymestyn ystod rheolaeth amgylcheddol ar ei fferm trwy wneud cais i ymuno â chynllun amaethyddol-amgylcheddol Tir Gofal. Byddai hynny wedi cynhyrchu incwm sylweddol ar gyfer y fferm, sydd ar hyn o bryd mewn dyledion mawr. Yn ei gais, yr oedd Mr Williams wedi mynegi bwriad i ychwanegu at y cynefinoedd presennol ar ei dir, a chreu cynefinoedd newydd. Yn ychwanegol i'r manteision cyffredinol i fywyd gwyllt, yr oedd y cytundeb hefyd yn cynnig rheoli ardal o laswelltir er budd y cornicyll; un o'r rhywogaethau adar sy'n cael eu rhestru fel rhywogaeth blaenoriaeth uchel gan y Gymdeithas Gwarchod Adar (RSPB). Yn anffodus, gwrthodwyd y cais i ymuno â'r cynllun Tir Gofal, ac felly collwyd y cyfle i hybu bywyd gwyllt yn Rhydlanfair.

DADANSODDIAD ECONOMAIDD

Ar hyn o bryd neilltuir cyllideb flynyddol o £5.5 miliwn ar gyfer Tir Gofal, a disgwylir i'r ffigwr hwn godi i £16.4 miliwn yn 2006/07. Mae'r gyllideb yma ar hyn o bryd yn cyfrif am 3.0% yn unig o gyfanswm y cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermydd yng Nghymru. Disgwylir rhagor o gyllid yn sgil modwleiddio gan ddarparu £18.5 miliwn ychwanegol ar gyfer Tir Gofal dros y cyfnod pum mlynedd hyd at 2006/07 Rhagwelir y bydd y dyraniad cyllid yma yn galluogi llunio oddeutu 2,335 o gytundebau Tir Gofal ar ffermydd yng Nghymru. Amcangyfrifir bod 10,000 o gytundebau yn darged realistig ar gyfer Tir Gofal, ar ôl 10 mlynedd. Byddai hynny'n gyfraniad sylweddol tuag at gyflawni gofynion bioamrywiaeth Cymru. Mae'r adroddiad yma yn argymhell y dylai llywodraeth y DU glustnodi'r arian ychwanegol yma i gynllun amaethyddol-amgylcheddol Tir Gofal.

DULL

Fel rhan o'r astudiaeth yma archwiliwyd pedair fferm fel astudiaeth achos. Cafodd y ddwy fferm gyntaf eu cynnwys er mwyn dangos y manteision sylweddol a ddaw yn sgil cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol yn nhermau amddiffyn ac ychwanegu at fioamrywiaeth tir ffermio. Mae'r ddwy fferm arall yn enghreifftiau o ffermydd na chafodd eu derbyn ar gynlluniau amaethyddol-amgylcheddol oherwydd prinder arian. Mae'r ffermydd hyn yn rhoi enghreifftiau o'r cyfleon a gollwyd ar gyfer amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau sydd dan fygythiad. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn y gwaith ymchwil yma, cyflwynir rhagfynegiadau o'r cynnydd sydd ei angen yn yr arian a ddyrennir er mwyn cwrdd â gofynion cyfreithiol y DU ar gyfer amddiffyn bioamrywiaeth.

2 Cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru

Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cynnig peirianwaith polisi i dalu ffermwyr ar sail contract i ddarparu gwasanaethau amgylcheddol a defnyddio ymarferion ffermio sy'n amgylcheddol dda. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer cynlluniau o'r fath (Rheoliad 2078/92 UE) fel un o'r mesurau a ddaeth i'r amlwg law yn llaw â newidiadau MacSharry i'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol ym 1992. Yng Nghymru, y prif gynllun amaeth-amgylcheddol yw'r cynllun Tir Gofal. Cyflwynwyd Tir Gofal, sy'n gynllun Cymru gyfan ar gyfer ffermydd cyfan, ym 1999 i ddisodli Tir Cymen, Ardaloedd Amgylchedd Sensitif (ESA), y cynllun Gweundiroedd, y cynllun Mynediad i Gefn Gwlad a'r cynllun Cynefinoedd¹. Yn yr adran hon ceir cipolwg ar y cynllun Tir Gofal a'r cynlluniau a fodolai o'i flaen.

Ardaloedd Amgylchedd Sensitif (ESA) 1987 - 1999 (Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig)
Cyflwynwyd y cynllun ESA ym 1987. Bwriadwyd y cynllun i warchod a gwella'r amgylchedd drwy gynnig dwy haen o symbyliadau gwirfoddol i ffermwyr mewn ardaloedd penodedig i fabwysiadu ymarferion amaethyddol sy'n fanteisiol i'r amgylchedd. O fewn y chwech ESA yng Nghymru ceir oddeutu 2,220 o gytundebau sy'n cynnwys ardal o 166,750 Ha. Mae'r gwariant blynyddol ar y cynllun ESA ym 1999/2000 yn oddeutu £7.5 miliwn.

Y Cynllun Gweundiroedd 1995-1999 (Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig)
Nod y cynllun Gweundiroedd oedd gwarchod a gwella amgylchedd gweundiroedd uchel drwy annog ffermwyr i ostwng nifer y mamogiaid i lefel uchafswm stocio bendant er mwyn cadw a gwella'r gweundir. Llofnodwyd un ar bymtheg o gytundebau ar gyfer ardal o 623 Ha. Roedd y gwariant blynyddol ar y Cynllun Gweundiroedd ym 1999/2000 yn oddeutu £81,000.

Y Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad 1995 - 1999 (Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig)
Rhoddai'r cynllun gwirfoddol hwn symbyliadau i ffermwyr i ddynodi rhannau newydd o dir amaethyddol addas yn dir sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer cerdded a gweithgareddau hamdden tawel eraill. Ychydig o ddi-ddordeb a welwyd yn y cynllun hwn yng Nghymru. Hyd yma, ni chafwyd ond un cais ac mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Y Cynllun Cynefinoedd 1995-1999 (Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig)
Nod y cynllun peilot hwn oedd creu a gwella cynefinoedd gwerthfawr (coetiroedd dail llydan, stribynnau arfordirol, glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau ac ymyl dyfroedd) drwy un ai hepgor tir o weithgareddau cynhyrchu amaethyddol neu gyflwyno tir pori helaeth, ac yna ei reoli er budd bywyd gwyllt dros gyfnod o ddeng mlynedd. Llofnodwyd oddeutu 860 o gytundebau ar gyfer 6,880 Ha. Mae'r gwariant blynyddol ar y cynllun hwn yn oddeutu £420,000.

Y Cynllun Cymorth Organig 1995 - 1999 (Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig)
Roedd y cynllun Cymorth Organig yn rhoi symbyliadau i ffermwyr i addasu o ffermio confensiynol i gynhyrchu organig. Mae'r taliadau, a roddir dros gyfnod o 5 mlynedd, yn adlewyrchu'r incwm rhagweledig yn ystod y cyfnod addasu. Ar hyn o bryd mae 61 yn cymryd

¹ Sylwer, er na wneir unrhyw gytundebau newydd dan y cynlluniau hyn ar ôl 1999, bydd y cynlluniau presennol yn dal i gael eu cefnogi tan ddiwedd y cytundeb.

rhan yn y cynllun dros ardal o oddeutu 2355 Ha. Mae'r gwariant blynyddol yn oddeutu £11.5 miliwn.

Y Cynllun Adfer Gwrychoedd 1992 - 1999 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Lansiwyd y Cynllun Adfer Gwrychoedd gan y Cyngor Cefn Gwlad gyda'r nod o ail-gyflwyno rheolaeth dda ar gyfer gwrychoedd dethol yng Nghymru. Bu'r cynllun yn boblogaidd iawn gyda ffermwyr, a bellach, mae ei nod wedi'i gynnwys yng nghynllun Tir Gofal. Yn ystod oes y cynllun (1992-99) llofnodwyd 1,553 o gytundebau ar gost o £3.72 miliwn. O ganlyniad, llwyddwyd i adfer 593 km wrychoedd gwael, achub 3053 km a sicrhau bod 3,646 km o wrychoedd da yn cael eu gwarchod.

Tir Cymen 1992-1999 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Sefydlwyd Tir Cymen fel cynllun stiwardiaeth cefn gwlad arbrofol yn ardaloedd Meirionnydd, Dinefwr ac Abertawe yng Nghymru. Cynllun gwirfoddol ar gyfer y fferm gyfan oedd Tir Cymen a chynigia gytundeb deng mlynedd i ffermwyr i reoli eu daliad mewn modd sy'n fanteisiol i'r amgylchedd. Mae ffermwyr yn derbyn taliadau blynyddol am ddilyn côd ymarfer amgylcheddol da ar y fferm gyfan, gyda thaliadau blynyddol ychwanegol am reoli cynefinoedd pwysig yn bositif a darparu mynediad newydd drwy ganiatâd. Mae taliadau cyfalaf safonol hefyd ar gael. Gwnaed cyfanswm o 1023 o gytundebau Tir Cymen, ar gyfer 89,304 Ha; mae hyn yn cyfateb i 47.2% o'r tir a oedd yn gymwys yn yr ardaloedd peilot. Yn ogystal â chyflwyno côd ymarfer amgylcheddol da ar yr holl dir a gyflwynwyd i'r cynllun, sicrhwyd rhagor o reolaeth bositif dros ardaloedd cynefinoedd penodol gan gynnwys 24,246 Ha o weundir grugog, 12,538 Ha o laswelltir mynydd, 4,219 Ha o laswelltir corsiog, 1,540 Ha o ddolydd sy'n gyfoeth o flodau a 4,540 Ha o goetir dail llydan. Yn ystod 1998/99 talwyd £5.763 miliwn i ffermwyr a oedd yn rhan o'r cynllun hwn am reoli'r tir ac am waith cyfalaf.

Tir Gofal 1999 ymlaen (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Tir Gofal yw'r cynllun amaeth-amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru-gyfan a gyflwynwyd ym 1999 i ddisodli'r holl gynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol yng Nghymru heblaw am y cynllun organig. Mae ffermwyr sy'n ymuno â'r cynllun yn derbyn taliadau blynyddol am gydymffurfio â'r adran orfodol ar gyfer y fferm gyfan ac am reoli cynefinoedd allweddol. Rhaid i bob llwybr cyhoeddus ar y fferm fod ar agor a rhaid darparu mynediad i dir agored. Hefyd, gall y ffermwr ddewis o amrywiaeth o opsiynau gwirfoddol ar gyfer adfer a chreu cynefinoedd neu nodweddion penodol. Mae taliadau unwaith-ac-am-byth ar gael am waith penodol a fwriadwyd i warchod a rheoli cynefinoedd a nodweddion ac am gefnogi mynediad o'r newydd. Dewisir ffermwyr i fod yn rhan o'r cynllun ar sail y rheini sy'n cynnig y gwerth gorau am arian a'r budd amgylcheddol gorau.

Cafwyd oddeutu 1,380 o geisiadau yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun. I ddechrau, dim ond £3.2 miliwn a ddyrannwyd i'r cynllun Tir Gofal. Cynyddwyd yr arian hwn wedyn ym 1999 i £5.5 miliwn. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wrthi'n prosesu'r ceisiadau hyn, ond nid ydynt wedi gallu cadarnhau unrhyw geisiadau hyd yma. Fodd bynnag, maent wedi gwneud 472 o gynigion ac mae bwriad i wneud 130 o gynigion eraill yn y dyfodol agos. Byddai hyn yn golygu y gellid gwneud 600 o gytundebau yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun. Gobaith y Cyngor Cefn Gwlad yw cael o leiaf 10,000 o ffermydd yn rhan o gynllun Tir Gofal ar ôl 10 mlynedd o'r cynllun.

Dengys yr arolwg uchod y datblygyd, dros yr wyth mlynedd diwethaf, gyfres o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. Canlyniad y rhaglen ddatblygu hon yw'r cynllun Tir Gofal; sef cynllun fferm gyfan sydd ar gael ledled Cymru.

GWARCHOD BIOAMRYWIAETH CYMRU

Lluniodd Undeb Ewrop (UE) ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn bennaf mewn ymateb i bwysau amaethyddol gan gynnwys argyfwng cyllidebol cynyddol UE, bryd hynny, a thrafodaethau masnach GATT, ond hefyd, ac yn bwysig, mewn ymateb i bryderon cynyddol am yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

Mae gan Lywodraeth y DU rwymedigaeth gyfreithiol i roi ar waith ddeddfwriaeth amgylcheddol UE gan gynnwys y Gyfarwyddeb Adar (79/409/EEC) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC). Mae'r DU hefyd ymhlith y rheini a lofnododd y Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol. Mae'n ofynnol i'r rheini a lofnododd y cytundeb rhyngwladol hwn gydnabod y dirywiad mewn cynefinoedd a rhywogaethau yn eu holl amrywiaeth ac mae'n rhaid iddynt hefyd lunio strategaethau cenedlaethol ar gyfer gwarchod a defnyddio amrywiaeth biolegol mewn modd cynaliadwy.

Ymatebodd y DU i'r Cytundeb Bioamrywiaeth gydag adroddiad *Biodiversity: The UK Action Plan*, a gyhoeddwyd ym 1994. Yn sgîl hwn, sefydlwyd Grwp Llywio Bioamrywiaeth y DU gyda'r dasg o gynhyrchu rhaglen weithredu fanwl. Un o'r camau allweddol i gyflawni'r dasg hon oedd cynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer 400 o fathau o rywogaethau a 40 o fathau o gynefinoedd. Mae 20 o'r cynefinoedd hyn yn elwa o ran orfodol y cytundeb Tir Gofal, tra bod yr opsiynau gwirfoddol yn cynnwys 2 gynefin arall. **Yng Nghymru, sefydlwyd Grwp Bioamrywiaeth Cymru ym 1996 ac un o'i dasgau oedd cynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer y 54 rhywogaeth a'r 12 cynefin sydd i'w cael yng Nghymru. Bydd wyth o'r cynlluniau cynefinoedd yn elwa o adran orfodol Tir Gofal a chynhwysir un arall yn yr opsiynau gwirfoddol.**

Ceir cynlluniau bioamrywiaeth lleol hefyd. Tuedda'r rhain i gael eu rhannu fesul sir, ond mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn llunio cynlluniau gweithredu. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd Cynlluniau Gweithredu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Sir Gaerfyrddin yn dal ar ffurf drafft. Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrthi'n cael eu cynhyrchu a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yr haf eleni (2000).

Mae'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cynnig cyfle ardderchog i'r llywodraeth lynu wrth ei rhwymedigaeth bioamrywiaeth gan fod oddeutu 80% o gefn gwlad Cymru yn dir amaethyddol. Nid oes unrhyw amheuaeth bod ymarferion ffermio wedi dylanwadu'n fawr ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n bresennol yn nhirwedd Cymru. Bu'r rhan fwyaf o'r ymarferion hyn yn sefydlog am gannoedd o flynyddoedd ond, ers yr Ail Ryfel Byd, mae newidiadau mewn peiriannau a chynnydd yn y gwrtaith a'r plaladdwyr a ddefnyddir wedi cael effaith ddofn ar amrywiaeth y rhywogaethau. Er enghraifft, tuedda'r cynnydd yn y gwrtaith a ddefnyddir i ffafrio ond ychydig iawn o rywogaethau planhigion cystadleuol iawn megis rhygwellt parhaol (*Lolium perenne*) a meillion gwynion (*Trifolium repens*). Mae cynnydd mewn peiriannau hefyd yn annog pobl i wneud ffermydd yn unedau mawr, sy'n tueddu i fod yn fwy economaidd. O

ganlyniad i'r newidiadau hyn, dinistriwyd brithwaith o gaeau, gwrychoedd, coetiroedd a phyllau i ffurfio unedau ungnwd mawr. Gyda gostyngiad yn amrywiaeth y planhigion ceir cwmp cyfatebol yn amrywiaeth yr anifeiliaid yn gyffredinol. **Rhaid cael cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn awr i rwystro'r dinistr hwn a rhoi symbyliadau i ffermwyr droi'n ôl at y dulliau cynhyrchu sy'n fwy amgylchedd-garedig.**

3 Astudiaethau Achos ar effaith cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru

Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn pwysu a mesur yr effaith amgylcheddol a chymdeithasol y mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ei chael ar bedair fferm yng Nghymru. Rhoddir ystyriaeth i'r effaith amgylcheddol ac economaidd y mae cymryd rhan mewn cynlluniau presennol, h.y. Tir Cymen, yn ei chael ar ffermydd y ddwy astudiaeth achos gyntaf: Penmaen Isa ac y fferm yn ne Cymru. Defnyddir y ddwy fferm arall, Aber Hyddnant a Rhydlanfair, fel enghreifftiau o ffermydd a ymgeisiodd i fod yn rhan o'r cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal, ond bod eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod oherwydd diffyg arian ar gyfer y cynllun. Defnyddir ffermydd yr astudiaethau achos i ddangos y manteision amgylcheddol y gellid eu cael yn sgîl cymryd rhan yn y cynlluniau hyn, a hefyd i dynnu sylw at y cyfleoedd i warchod yr amgylchedd a gollwyd oherwydd diffyg arian ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Dewiswyd ffermydd yr astudiaethau achos, ar y cyd ag Undeb Amaethwyr Cymru, i gynrychioli ffermydd Cymreig arferol. Roedd pob ffermwr yn cymryd rhan yn yr astudiaeth gan wybod y byddai ei achos yn cael ei fynegi wrth y cyhoedd mewn ymgyrch yn y cyfryngau.

Rhaid cofio y gwnaed yr asesiadau hyn ar ôl ymweliadau byr â'r ffermydd. Nid oedd modd i ni, felly, gynhyrchu mapiau o gynefinoedd na chwblhau rhestrau o rywogaethau. Pe byddai amser wedi caniatáu byddem wedi cynnal arolygon mwy manwl, a byddai'r rhain, yn ddi-os, wedi dynodi amrywiaeth ehangach o rywogaethau o ddiddordeb cadwriaethol ar bob fferm. Fodd bynnag, mae'r rhywogaethau a ddynodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar sylwadau'r ffermwyr ac felly maent yn cynnwys, yn bennaf, y rhywogaethau mwy adnabyddus megis yr ysgyfarnog, y dyfrgi a'r gornchwiglen. Does dim amheuaeth bod y rhestr o'r rhywogaethau gwarchoddedig sy'n byw ar y pedair fferm yn llawer mwy na'r hyn a grybwyllir yn yr adroddiad hwn.

PENMAEN ISA

Ffermwr: Mr Huw Besent,
 Cyfeiriad: Penmaen Isa, Pennal, Machynlleth, Powys, canolbarth Cymru, SY20 9LB.
 Ffôn: 01654 791221

Fferm ddefaid a gwartheg biff tir isel a thir uchel 146 Ha yw Penmaen Isa ac fe'i lleolir yng ngorllewin Cymru. Bu'r fferm yn rhan o gynllun Tir Cymen ers 1992, ac mae ganddi hefyd ddau gytundeb rheoli SSSI. Mae cytundebau'r cynllun yn anghyffredin efallai o safbwynt eu bod hi'n ofynnol i'r ffermwr gynyddu'r lefel stocio, a hynny dan reolaeth, ar rannau corsio y fferm. Mae'r ymarfer hwn wedi gwella'r cynefinoedd tir gwlyb hyn, gan beri cynnydd sylweddol yn y poblogaethau adar gan gynnwys y gornchwigen, y pibydd coesgoch a gwyddau bronwyn yr Ynys Las. Rhestrir yr holl adar hyn yn rhywogaethau sydd angen gwarchodaeth arbennig. Mae Tir Cymen hefyd wedi ychwanegu'n sylweddol at incwm y ffermwr. Yn ddiweddar dyfarnwyd Penmaen Isa yn ail drwy Gymru yng ngwobr 'Bioamrywiaeth a Chadwraeth' Llywydd yr NFU.

Y Fferm

	Cyn y Cynllun	Nawr
Arwynebedd cyfan y fferm	146.5 Ha	146.5 Ha
Glaswelltir wedi ei drin	71.2 Ha	71.2 Ha
Glaswelltir heb ei drin	6.9 Ha	6.9 Ha
Coetir dail llydan	13.0 Ha	13.0 Ha
Coetir conifer	1.0 Ha	1.0 Ha
Tir gwlyb (morfa heli)	54.4 Ha	54.4 Ha
LFA DA	53.0 Ha	53.0 Ha
LFA SDA	93.5 Ha	93.5 Ha
Busnes gwartheg biff		
Buchod Sugno (nifer)	15	50
Gwartheg stôr (nifer)	16	20
Lloeau (nifer)	15	45
Teirw (nifer)	1	1
BUSNES DEFAID		
Mamogiaid (nifer)	350	455
Wyn Benyw (nifer)	35	109
Wyn (nifer)	300	525
DANGOSYDDION PERFFORMIAD		
Wyn / mamogiaid (%)	80 - 90%	110%

Y Ffermwyr

Mae Mr Huw Besent (41) yn berchen ar fferm Penmaen Isa ac yn ffermio yma ers oddeutu naw mlynedd. Er mai ei brif nod yw gwneud bywoliaeth o'r fferm, mae Mr Besent hefyd yn awyddus iawn i wella safon amgylchedd ei fferm. Yn ddiddorol, mae'n ystyried bod 'cynhyrchu cynefinoedd' ar gyfer bywyd gwyllt (ac yn enwedig adar) yr un fath â rheoli tir i gynhyrchu defaid a gwartheg bîff. *'Dim ond ei fod e'n anifail gwahanol!'* Mae gan Mr Besent, yn amlwg, gymhellion amgylcheddol cryf iawn a dyma egluro ei gymhelliad dros gymryd rhan yn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol ar fferm Penmaen Isa

Bu Penmaen Isa yn rhan o gynllun Tir Cymen ers ei gyflwyno ym 1992. Dan y cynllun rhaid i'r ffermwyr reoli tri chynefin (cors bori, morfa heli a choetir dail llydan) yn unol â gorchmynion rheoli cynefinoedd penodol, yn ogystal â dilyn côd ymarfer amgylcheddol da ar weddill ei fferm. Mae gan y fferm hefyd ddau gytundeb rheoli SSSI: un ar gyfer 51.4 HA o forfa heli a'r ail ar gyfer 6.8 Ha o laswelltir corsiog heb ei drin. Unwaith eto, rhaid rheoli'r mannau hyn yn unol â gorchmynion amgylcheddol. Mae'r fferm, hefyd, yn rhan o'r Cynllun Grant Coetiroedd (1997). Yn y gorffennol bu gan y fferm Gynllun Grant Cadwraeth Fferm (1990) a redodd am chwe blynedd. Ymgeisiodd Mr Besent ar gyfer y cynlluniau amaeth-amgylcheddol hyn yn bennaf gan eu bod yn cyd-fynd â'i gynllun fferm, ond hefyd oherwydd eu symbyliadau ariannol a oedd yn talu am gostau'r gwaith cadwraeth. Bydd yr arolwg hwn yn archwilio effaith y cynllun Tir Cymen a'r cytundeb SSSI.

Y Cytundeb Tir Cymen

Manylion y cytundeb	Arwynebedd (Ha)	£ / Ha	Cyfanswm y taliad
Côd y fferm gyfan ¹	146.5	20	£2930 y fl
Cytundeb cynefinoedd a nodweddion			
Tir yr arfordir (Cors bori)	1	70	£70 y fl
Tir yr arfordir (Morfa heli)	51.4	30	£1542 y fl
Coetir dail llydan (presennol)	13	85	£1105 y fl
Cyfanswm taliadau blynyddol Tir Cymen			£5860 y fl
Taliadau cyfalaf			
Ffensio ar gyfer rheolaeth amgylcheddol	1.3 km		£1800
Plannu coed a gwrychoedd (nIFer)	1000		£1250
Prosiectau arbennig (ail-siapiro ffosydd)	180m		£500
Cyfanswm y taliadau cyfalaf			£3550

¹ Mae Côd y Fferm Gyfan yn cynnwys: Cadw holl derfynau presennol y caeau; Cadw'r holl adeiladau fferm sy'n dal tywydd mewn cyflwr da; Diogelu coed a gwrychoedd; Diogelu nodweddion dwr; Cadw'r fferm yn lân rhag sbwriel.

Y Cytundeb SSSI

Manylion y cytundeb	Arwynebedd (Ha)	£ / Ha	Cyfanswm y taliad
Glaswelltir corsiog	6.8	218	£1500 y fl
Pori'r morfa heli yn helaeth			£750 y fl
Porfa'r gaeaf: gwyddau bronwyn yr ynys las	10	75	£750 y fl
Cyfanswm y taliadau sssi blynyddol			£3000 y fl

Effeithiau Amgylcheddol y Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol ar fferm Penmaen Isa Mae rheoli Penmaen Isa dan gytundeb Tir Cymen a'r cytundeb SSSI yn anghyffredin o ran eu bod yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynyddu'r lefelau stocio. Tuedd ymarfer rheoli amaeth-amgylcheddol safonol yw annog unigolion i leihau lefelau stocio. Fodd bynnag, penderfynodd y Cyngor Cefn Gwlad, ar ôl ymgynghori gyda'r warden RSPB lleol, fod yn rhaid sicrhau cynnydd rheoledig yn lefelau stocio'r gwartheg ar y corstir er mwyn creu'r amodau gorau ar gyfer adar tir gwlyb. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y darn y mae'r gwartheg yn cael ei bori yn cael ei reoli'n gaeth gan ffensys trydan.

Rheolir y glaswelltir corsiog ar gyfer cornchwiglod magu (*Vanellus vanellus*); un o restr faith o rywogaethau bioamrywiaeth y DU. Mae cornchwiglod yn rhan o'r rhestr oherwydd eu bod wedi dioddef dirywiad o 25-49% o ran nifer/amrediad yn y DU dros y 25 mlynedd diwethaf (UKBSG, 1995). Mae'r gornchwiglen yn hoffi nythu mewn tir agored, mewn tyfiant byr, heb unrhyw beth yn ei rhwystro rhag gweld. Fel hyn, gall weld unrhyw ysglyfaethwyr sy'n nesáu. Felly, torrir y brwyn ym Mhenmaen Isa yn fyr er mwyn creu glastir byr ar gyfer cornchwiglod magu. Bu'r gwaith rheoli hwn yn hynod o lwyddiannus gan ei fod wedi denu chwe phâr o gornchwiglod magu i'r glaswelltir corsiog.

Ail-siapiwyd ffos hefyd er mwyn i'r cornchwiglod bach allu symud o'r cae lle mae'r nyth i gae cyfagos i fwyta. Roedd gan y ffos wreiddiol ochrau serth / fertigol lle canfuwyd adar ifanc marw yn aml, gan na allent ddianc mae'n debyg. Bydd ail-siapiro'r ffos hefyd yn fanteisiol i rywogaethau eraill y tir gwlyb. Mae llethrau graddol yn fwy naturiol ac yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o blanhigion dyfrol a lled-ddyfrol. Bydd ffos gyda thyfiant da ar ei hochrau hefyd yn lle llawer mwy deniadol i anifeiliaid megis dyfrgwn. Dim ond newydd ail-siapiro'r ffos y maent, felly ni ellir asesu'r effaith a gaiff hyn ar y cornchwiglod tan ddiwedd gwanwyn 2000.

Er budd y pibydd coesgoch (*Tringa totanus*) ac adar hirgoes eraill ar y morfa heli, mae gwartheg yn pori'r lle yn drwyadl gan ddefnyddio ffensys trydan i reoli'r manau dan sylw. Mae ar yr adar hyn angen brithwaith o dyfiant hir a byr. Maent yn hoffi cuddio eu nythod mewn tyfiant hir ond mae arnynt angen manau gyda thyfiant byr i fwyta. Mae'r sathru y mae'r gwartheg yn ei achosi yn rheoli'r brwyn ac yn cynhyrchu nifer fawr o byllau bach (ôl carnau). Gall amrywiol drychfilod fridio yn y rhain a gall y pibydd coesgoch eu bwyta. Mae gan y llefydd, na chaiff eu pori mor galed, dyfiant hir lle gall yr adar nythu.

Roedd gan Mr Besent gynlluniau i drin y brwyn ar y morfa gyda chemegau i'w rheoli ac annog y glaswellt. Er y byddai hyn wedi caniatáu lefelau stocio uwch, byddai wedi dinistrio brithwaith y brwyn tal a'r glaswelltir byr – pethau y mae ar y pibydd coesgoch eu hangen i fagu. Mae'r cytundeb SSSI ym Mhenmaen Isa wedi gallu gwarchod a gwella'r cynefin pwysig hwn.

Mae gwyddau bronwyn yr Ynys Las (*Anser albifrons flavirostris*) hefyd wedi elwa o reoli'r glaswelltir corsiog. Ym 1998/99, daeth haid o 140 o adar i'r fferm am y gaeaf. Credir bod yr

haid hon yn un o ddim ond ychydig sy'n dod i'r DU bob blwyddyn. Mae gwyddau bronwyn yr Ynys Las yn un o'r rhywogaethau sydd yn Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar Comisiwn Ewrop. Dan y Gyfarwyddeb hon, rhaid i'r rhywogaethau "*fod yn destun mesurau cadwraeth sy'n ymwneud â'u cynefin er mwyn sicrhau eu parhad a'u bod yn atgenhedlu yn eu hardal*".

Gydag arian Tir Cymen hefyd llwyddwyd i ffensio 13 Ha o goetir dail llydan ar y fferm i gadw da byw allan. Mae peidio â phori yn annog planhigion llawr coetiroedd ac adfywiad naturiol y coed. Unwaith y bydd y planhigion wedi dechrau adfywio bydd yr anifeiliaid cysylltiedig hefyd yn dechrau dychwelyd. Bydd rhywogaethau cyffredin megis gloyn byw brith y coed (*Pararge aegeria*), llygoden y maes (*Apodemus sylvaticus*) a'r llygoden goch (*Clethrionomys glareolus*) yn dychwelyd yn fuan gan y bydd yna boblogaethau gerllaw. Efallai na fydd rhai rhywogaethau coetiroedd, mwy prin, fyth yn ail-ymsefydlu oherwydd bod y boblogaeth agosaf yn rhy bell.

Heb y cynllun Tir Cymen, byddai stoc yn dal i bori'r coetiroedd hyn, a byddai hyn yn rhwystro adfywiad naturiol gan y byddai eginblanhigion y coed ifanc yn cael eu bwyta. Dros amser, wrth i'r coed farw, a heb rhai ifanc i ddod yn eu lle, byddai'r man coediog yn raddol droi'n laswelltir drachefn.

Effaith economaidd Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol ar fferm Penmaen Isa

Mae'n anodd eithriadol mesur yr union effaith economaidd a gafodd y cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar fferm Penmaen Isa. Y prif reswm am hyn yw am fod y fferm wedi dwysáu ei chynhyrchiad er mwyn dal i fod yn broffidiol. Ymhlith y newidiadau yn y busnes da byw y mae cynnydd yn nifer y defaid a'r gwartheg, yn ogystal â'r newid o ddefaid mynydd i ddefaid tir isel trymach. Law yn llaw â'r newidiadau hyn yn nifer y da byw, gwelwyd cynnydd yn y gwrtaith blynyddol a ddefnyddir o 3 tunnell i 40 tunnell ar laswelltir sydd wedi ei drin. Er nad oedd yr un o'r newidiadau hyn yn benodol gysylltiedig â'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol, dylid nodi nad oedd cytundebau'r cynllun yn rhwystro'r ffermwr rhag dwysáu ei fferm.

Mae un ffordd o fesur yr effaith economaidd uniongyrchol a geir o fod yn rhan o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol, yn seiliedig ar yr incwm a gafwyd o daliadau blynyddol côd y fferm gyfan dan gynllun Tir Cymen (£2930) a chytundebau Tir Cymen a Chynefin SSSI fel ei gilydd (£2717 a £3000). O'r herwydd, mae cyfanswm yr incwm blynyddol o'r cynlluniau yn £8650. Roedd y gwir gost o fodloni gofynion y cytundebau hyn yn ddim, bron, gan na fu'n rhaid i'r ffermwr wneud newidiadau costus i'w ymarferion ffermio na lleihau nifer ei stoc. Fodd bynnag, nid yw taliadau cyfalaf Tir Cymen wedi sicrhau manteision economaidd sylweddol i'r fferm. O'r £1800 a gafwyd am ffensio, gwariwyd £500 ohono ar weiers, tra gwnaed y polion o goed o'r fferm. Gwnaeth Mr Besent yr holl waith ffensio ei hun. O'r £1250 a gafwyd am blannu coed, gwariwyd £800 ar goed ifanc a thiwbiau gwarchodol, a chadwyd y gweddill i dalu am gostau llafur y ffermwr. Contractwr a wnaeth y gwaith o ail-siapio'r ffos. Mae'n amlwg bod y taliadau blynyddol y mae Mr Besent yn eu cael yn cyfrannu'n sylweddol at incwm y fferm; amcangyfrifa'r ffermwr ei fod yn oddeutu 15 – 20 % o'r incwm blynyddol.

Cyllideb Rannol: Goblygiadau Tir Cymen ar fferm Penmaen Isa

Costau		Manteision	
Incwm a gollwyd	£	Incwm a enillwyd	£
	-	Tir Cymen: Y Fferm gyfan	2930
		Tir Cymen: Cytundeb cynefinoedd	2717
		Tir Cymen: Taliadau cyfalaf ¹	305
		Cytundeb SSSI	3000
Cyfanswm yr incwm a gollwyd		Cyfanswm yr incwm a enillwyd	8952
Costau newydd		Costau a arbedwyd	-
Tir Cymen: Deunyddiau cyfalaf ¹	130		
Cyfanswm y costau newydd	130	Cyfanswm y Costau a arbedwyd	8952
COLLED	130	ENNILL	8952
Ennill net sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yng nghynllun Tir Cymen ac SSSI = £ 8822			

1 Sylwer, y tybir bod y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r cynllun Tir Cymen yn cael eu taenu'n gyfartal dros oes deng mlynedd y cytundeb.

Mae bod yn rhan o'r cynlluniau hefyd yn effeithio ar gyflogaeth. Treuliodd Mr Besent bum diwrnod yn gwneud gwaith ffensio a phlannu coed, tra cyflogwyd contractwyr am dri diwrnod i ail-siapiro'r ffos.

Crynodeb

Mae Penmaen Isa yn enghraifft o fferm sydd â rhannau mawr o gynefinoedd pwysig oddi mewn i'w therfynau. Cydnabyddir bod y cynefinoedd hyn, ynghyd â'r bywyd gwyllt sy'n byw ynddynt, yn bwysig o safbwynt cynnal y bioamrywiaeth oddi mewn i'r DU. Mae'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol nid yn unig wedi sicrhau y gwarchodir y cynefinoedd hyn, ond hefyd wedi caniatáu iddynt gael eu rheoli mewn ffordd sy'n eu gwella er budd bywyd gwyllt. Yn wir, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y gwahanol rywogaethau adar, gan gynnwys cornchwilogod a gwyddau bronwyn yr Ynys Las, ym Mhenmaen Isa. Heb gymorth y cynlluniau hyn, mae'n debygol y byddai'r cynefinoedd pwysig hyn wedi diflannu.

FFERM YN NE CYMRU

Saif y fferm, sy'n fferm tir uchel defaid a gwartheg bîff 47 Ha, yn ne Cymru. Mae gan y fferm dirwedd draddodiadol gyda chaeau bach a gwrychoedd yn derfynau iddynt. Ymunodd y fferm â chynllun Tir Cymen ym 1992. Drwy gyfrwng y cynllun hwn mae terfynau'r fferm, a oedd wedi cael eu hesgeuluso i raddau helaeth dros y blynyddoedd diwethaf, yn cael eu rheoli drachefn, gan greu gwell cynefinoedd i fywyd gwylt. Hefyd, mae'r cynllun wedi'i gwneud hi'n ofynnol i'r ffermwr leihau'r lefelau stocio ar y glaswelltir sydd heb ei drin ar y fferm. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd mewn blodau a gloynnod byw yn y mannau hyn. Yn ychwanegol at y manteision amgylcheddol hyn, mae'r cynllun Tir Cymen yn cael effaith gymdeithasol sylweddol o ran bod yr incwm a geir o'r cynllun yn cyfateb i chwarter incwm blynyddol y fferm.

Y Fferm

	Cyn y cynllun	Nawr
Arwynebedd cyfan y fferm	47.6 Ha	47.6 Ha
Glaswelltir wedi ei drin	10.0 Ha	10.0 Ha
Glaswelltir heb ei drin	35.6 Ha	35.6 Ha
Coetir Dail Llydan	2.0 Ha	2.0 Ha
LFA DA	47.6 Ha	47.6 Ha
Busnes gwartheg bîff		
Buchod Sugno (nifer)	20	20
Gwartheg stôr (nifer)	20	-
Lloeau (nifer)	20	20
Teirw (nifer)		
Busnes defaid		
Mamogiaid (nifer)	250	150
Wyn benyw (nifer)	-	-
Wyn (nifer)	375	150
Dangosyddion perfformiad		
Wyn / mamogiaid (%)	150%	100%

Y Ffermwr

Mae'r ffermwr wedi ffermio y fferm hon ers oddeutu 20 mlynedd. Mae'n byw ar y fferm gyda'i wraig a'i ddau o blant sydd yn eu harddegau. Mae'n mwynhau gweithio ar y fferm ac mae'n awyddus i'w chadw yn undod masnachol. Byddai'n hapus yn trosglwyddo'i fferm i'w fab, fodd bynnag, oherwydd pryderon am ymarferoldeb ariannol ffermio i'r dyfodol, byddai'n mynnu iddo hefyd gael crefft arall i gwympo'n ôl arni. Ar hyn o bryd, mae'r ffermwraig yn gweithio fel nyrs ac mae ei hincwm hi yn ran hanfodol o incwm y teulu.

Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol ar y fferm

Mae'r fferm wedi bod yn rhan o gynllun Tir Cymen ers ei gyflwyno ym 1992. Ymunodd y ffermwr â'r cynllun yn bennaf oherwydd yr incwm ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag ef, ond hefyd am yr ochr gadwriaethol. Gwêl y cynllun fel un sy'n sicrhau manteision i seilwaith y fferm, o safbwynt ei fod yn helpu i gynnal terfynau'r caeau, ac i'r amgylchedd o safbwynt creu a chynnal cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Y Cytundeb Tir Cymen

Manylion y cytundeb	Arwynebedd (Ha)	£ / Ha	Cyfanswm y taliad
Côd y fferm gyfan ¹	47.6	20	£952 y fl
Cytundeb cynefinoedd a nodweddion			
Glaswelltir heb ei drin (glaswelltir corsiog)	1.4	80	£116 y fl
Coetir dail llydan (presennol)	2	52	£105 y fl
Porfa'r gaeaf (Maip i'r adar)	2.4	275	£657 y fl
			£878 y fl
Cyfanswm Taliadau Blynnyddol Tir Cymen			£1830 y fl
Taliadau cyfalaf			
Gwrychoedd newydd	80m		£120
Gwrychoedd wedi'u hatgyweirio/adfer	2346m		£3519
Ffensio ar gyfer rheolaeth amgylcheddol	4462		£6247
Gatiau a cHamfeydd	1		£130
Cyfanswm y Taliadau Cyfalaf dros 10 mlynedd			10016

1 Mae Cod y Fferm Gyfan yn cynnwys: Cadw holl derfynau presennol y caeau; Diogelu coed a llwyni; Diogelu nodweddion dwr; Cadw'r fferm yn glir rhag sbwriel.

Effeithiau Amgylcheddol Tir Cymen ar y fferm hon

Mae'r fferm yn fferm fynydd defaid a gwartheg biff sydd wedi cadw tirwedd draddodiadol y fferm o gaeau bach gyda therfynau gwrychoedd. Mae maint caeau'r fferm, ar gyfartaledd, yn oddeutu 1.2 – 1.6 Ha, tra nad yw'r cae mwyaf ond yn 2.8 Ha. Mae'r rhan fwyaf o'r glaswelltir (80%) yn dir heb ei drin, a 10 Ha ohono'n unig sydd wedi ei drin.

Cyn ymuno â chynllun Tir Cymen roedd y ffermwr wedi dechrau ar raglen ddraenio ac ail-hadu ar dir heb ei drin er mwyn gwneud ei fferm yn fwy cynhyrchiol. Byddai hyn, ynghyd â chynnydd mewn gwrtiaith, wedi caniatáu iddo gadw lefelau stocio uwch. Roedd llawer o wrychoedd y fferm mewn cyflwr gwael cyn ymuno â Thir Cymen gan na allai'r ffermwr fforddio eu rheoli. Roedd y ffermwr wedi bwriadu cael gwared â thros hanner y gwrychoedd hyn a chreu caeau mwy. Roedd llwyni gwern, a oedd i'w gweld yma ac acw ar hyd y terfynau, hefyd ar fin cael eu difa. Ers ymuno â chynllun Tir Cymen rhoddwyd pen ar yr holl welliannau amaethyddol a gynlluniwyd.

Dan gynllun Tir Cymen roedd hi'n ofynnol i'r ffermwr leihau'r lefelau stocio, a'r gwrtaith a ddefnyddiai, ar ei laswelltir. Mae'r ffermwr wedi sylwi bod hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y blodau a'r gloynnod byw sydd i'w gweld yn y glaswelltir corsiog, ond nid yw eto wedi sylwi ar unrhyw newidiadau amlwg yn y mannau mwy o laswelltir heb ei drin. Mae'r cytundeb hwn yn glynu wrth y cyngor a geir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ar gyfer dolydd gwair tir isel.

Yn ystod wyth mlynedd y cytundeb Tir Cymen, mae 2.3 km o wrychoedd a esgeuluswyd wedi eu tocio a'u plygu, a phlannwyd 80m o wrychoedd newydd. Er mwyn amddiffyn yr holl wrychoedd hyn rhag stoc, codwyd 3.2 km o ffens. Codwyd ffens arall 1.2 km i warchod y llwyni gwern (*Alnus glutinosa*) rhag i'r stoc eu pori. Mae'r ffermwr wedi sylwi bod y stribynnau gwarchod 1m ar hyd y gwrychoedd wedi arwain at gynnydd yn nifer y planhigion blodeuog a geir ar hyd y gwrychoedd. Mae'r gwaith a wnaed ar wrychoedd y fferm wedi cyfrannu at Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ar gyfer gwrychoedd Hynafol a / neu wrychoedd sy'n gyfoeth o rywogaethau a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer gwrychoedd.

Fel rhan o'r cytundeb Tir Cymen, mae'r ffermwr yn awr yn tyfu 2.4 Ha o faip fel cnwd porthi. Mae hyn hefyd yn darparu mannau bwydo yn y gaeaf i adar fel llinosiaid (*Carduelis cannabina*) a llinosiaid penfelyn (*Emberiza citrinella*), yn ogystal â mamaliaid megis yr ysgyfarnog (*Lepus timidus*). Mae llinosiaid (UKBG, 1998) a'r ysgyfarnog (UKBSG, 1995) yn ddwy rywogaeth sydd ar restr blaenoriaeth Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

Ers ymuno â'r cynllun Tir Cymen, mae'r ffermwr wedi sylwi bod cyflwr y da byw wedi gwella. Cred y ffermwr mai'r gostyngiad yn y lefelau stocio sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r cytundeb Tir Cymen ar y fferm hon yn dangos y gall cynllun amaeth-amgylcheddol fod yn fanteisiol i systemau amaethyddol yn ogystal ag i'r amgylchedd.

Effaith Economaidd Tir Cymen ar y fferm hon

Mae Tir Cymen wedi golygu dau brif beth i'r fferm: yr angen i leihau lefelau stocio a chynnal terfynau caeau.

Dan y cytundebau rheoli ar gyfer y glaswelltir corsiog a'r glaswelltir heb ei drin, bu'n rhaid i'r ffermwr leihau nifer y stoc a oedd yn pori'r mannau hyn. O'r herwydd, bu'n rhaid gostwng nifer y defaid o 250 o famogiaid i 150. O'r herwydd, mae'r fferm wedi colli incwm a gaed o werthu'r da byw hyn yn ogystal â'r cymorthdaliadau sy'n gysylltiedig â nhw (£6002). Mae'r cytundebau Tir Cymen wedi gwneud iawn, yn rhannol, am y golled hon (£1830) a hefyd y premiwm Ysgafnhau Defnydd Tir y mae'r ffermwr yn nawr yn gymwys i'w gael (£580) a'r arbedion a gaiff yn sgîl defnyddio llai o wrtaith (£1530). Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r arbedion hyn yn gwneud iawn am yr incwm a gollir drwy leihau nifer y da byw.

Bydd y ffermwr yn cael £10,016 am y gwaith ffensio a phlannu gwrych dros 10 mlynedd y cynllun. Mae wedi amcangyfrif y bydd oddeutu £7000 o'r arian hwn yn cael ei wario ar ddeunyddiau, gyda'r gweddill yn mynd tuag at ei gostau llafur. Mae wedi cyfrifo, o'r arian hwn, y bydd yn cael oddeutu £0.70 yr awr am ei lafur.

Dengys y gyllideb rannol (isod) bod cymryd rhan yng nghynllun Tir Cymen wedi peri gostyngiad ariannol o oddeutu £1761 yn yr incwm blynyddol. Dengys hyn nad yw lefel taliadau iawndal Tir Cymen yn ddigon uchel i dalu am wariant y ffermwr ar y gweithgareddau rheoli amgylcheddol sy'n ofynnol dan y cynllun. Fodd bynnag, mae yna nifer o fanteision eraill a geir o gymryd rhan yn y cynllun ac na roddwyd ystyriaeth iddynt yn y gyllideb rannol. Ymhlith y rhain y mae gwelliannau i derfynau caeau, gostyngiad yn y llwyth gwaith sy'n

gysylltiedig â'r busnes da byw, gostyngiad ym miliau'r milfeddyg ac, o bosib, brisiau uwch am y stoc oherwydd eu cyflwr gwell a'r manteision amgylcheddol. Yn ychwanegol, mae'r cyhoedd hefyd yn elwa o'r cynllun yn sgîl greu llwybrau newydd drwy'r fferm.

Cyllideb Rannol: Goblygiadau Tir Cymen ar y fferm.

Costau		Manteision	
Incwm a gollwyd	£	Incwm a enillwyd	£
225 o wyn @ £17.5	3937	Tir Cymen: Fferm gyfan	952
HLCA (100 o famogiaid) @ £2.65	265	Tir Cymen: Cytundeb cynefinoedd	878
SAPS (100 o famogiaid) @ £18.00	1800	Tir Cymen: Taliadau cyfalaf ¹	1001
		Premiwm Ysgafnhau	580
Cyfanswm yr incwm a gollwyd	6002	Cyfanswm yr incwm a enillwyd	3411
Costau newydd		Costau a arbedwyd	
Deunyddiau cyfalaf	700	Gwrtaith 17 t @ £90	1530
Cyfanswm y costau newydd ¹	700	Cyfanswm y costau a arbedwyd	1530
COLLED	6702	ENNILL	4941
Y golled ariannol net sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o gynllun Tir Cymen = £ 1761			

¹ Sylwer, y tybir bod y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â chynllun Tir Cymen yn cael eu taenu'n gyfartal dros oes deng mlynedd y cytundeb.

Crynodeb

Mae'r fferm yn enghraifft o fferm fynydd defaid a gwartheg biff arferol yng Nghymru. Un o nodweddion mwyaf diddorol y fferm yw'r tirlun traddodiadol o gaeau bach gyda gwrychoedd yn derfynau. Yn anffodus, roedd y rhan fwyaf o'r gwrychoedd wedi cael eu hesgeuluso. At hynny, roedd gan y ffermwr gynlluniau i gael gwared â llawer o'r gwrychoedd mewn ymgais i'w alluogi i reoli'r tir yn fwy effeithlon. Roedd y cytundeb Tir Cymen, a lofnodwyd ym 1991/92, yn cynnig symbyliadau i newid y sefyllfa. Gwarchodir y gwrychoedd bellach dan gôd y fferm gyfan, ac fe'u rheolir yn awr ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r cynllun Tir Cymen hefyd wedi'i gwneud hi'n ofynnol i leihau'r stoc ar laswelltir y fferm nad oedd wedi ei drin. Mae hyn wedi caniatáu i'r manau hyn gynnal amrywiaeth mwy o rywogaethau planhigion a bywyd gwyllt cysylltiedig. Mae'n gwbl amlwg bod y cytundeb Tir Cymen ar y fferm wedi diogelu a gwella'r cynefinoedd bregus hyn ac mae, yn sgîl hynny, wedi cyfrannu at gyflawni amcanion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru a'r DU.

FFERM ABER HYDDNANT

Ffermwr: Mr Paul Matthews,
 Cyfeiriad: Aber Hyddnant, Crai, Aberhonddu, LD3 8LS
 Ffôn: 01874 636797

Mae Aber Hyddnant yn fferm fynydd gwartheg a defaid 90 Ha a saif oddi mewn i ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r fferm yn cynnwys nodweddion a chynefinoedd diddorol a fyddai, o'u rheoli'n iawn, yn sicrhau manteision sylweddol i fywyd gwylt. Cyflwynodd Mr Matthews gais i Tir Gofal ym 1999 gyda'r bwriad o reoli ei fferm mewn ffordd a fyddai'n sensitif i'r amgylchedd. Roedd y gwaith amgylcheddol arfaethedig yn cynnwys rheoli cyfres o nentydd a phyllau, a hefyd addasu 6 HA o laswelltir wedi ei drin yn rhannol yn laswelltir heb ei drin. Fodd bynnag, ni chafodd ei gais ddigon o bwytiau i gael ei ddewis felly fe'i gwrthodwyd. Yn sgîl hyn, ni fydd poblogaethau'r dyfrgi a'r ysgyfarnog sy'n byw ar y fferm yn elwa o'r rhaglenni gwella cynefinoedd ac mae hyn, o bosib, yn rhoi'r rhywogaethau gwarchoddedig hyn mewn perygl. Rhestrir y dyfrgi yn Atodiad II Cyfarwyddeb Cynefinoedd UE, tra bod y dyfrgi a'r ysgyfarnog yn rhywogaethau ar restr blaenoriaethau bioamrywiaeth y DU. Oherwydd i'w gais gael ei wrthod, bu'n rhaid i Mr Matthews ddod o hyd i gyflogaeth arall oddi ar y fferm i helpu i gynnal ei incwm. O ganlyniad i hyn, mae'n awr yn ffermio Aber Hyddnant yn rhan amser. Ym mis Rhagfyr 1999, dyrannwyd arian ychwanegol i gynllun Tir Gofal a llwyddodd i dderbyn ffermydd ychwanegol, gan gynnwys Aber Hyddnant, i'r cynllun.

Y Fferm

Arwynebedd cyfan y fferm	90.7 Ha
Arwynebedd cnydau	5.0 Ha
Glaswelltir wedi ei drin	62.1 Ha
Glaswelltir heb ei drin	15.6 Ha
Coetir dail llydan	6.0 Ha
Coetir conifer	2.0 Ha
LFA DA	90.7 Ha
Tir comin y mynydd	62.0 Ha
Busnes gwartheg bîff	
Buchod Sugno (nifer)	26
Heffrod (nifer)	18
Gwartheg stôr (nifer)	8
Lloeau (nifer)	2
Busnes defaid	
Mamogiaid (nifer)	480
Wyn benyw (nifer)	120
Wyn (nifer)	
Dangosyddion perfformiad	
Wyn / mamogiaid (%)	100 %

Y Ffermwr

Bu Mr Matthews (38 mlwydd oed) yn berchen ar fferm Aber Hyddnant ers 1983. Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn mae'n ffermio Aber Hyddnant wrtho'i hun. Fodd bynnag, mae'n defnyddio contractwyr i wneud y cynhaefu a'r gwaith chwalu tail, ac mae'n cyflogi myfyriwr i helpu gyda'r wyna. Roedd Mr Matthews eisiau bod yn ffermwr ar hyd ei oes ac mae'n mwynhau ei waith. Cred ef mai ffermwr da yw rhywun sy'n cynhyrchu nwyddau o safon, tra'n bod yn sensitif i'r amgylchedd ac i les da byw ar yr un pryd. Awgryma hefyd, i wneud arian yn y byd ffermio heddiw, fod yn rhaid i ffermwyr fod yn ymwybodol o'r farchnad, a gallu 'gweithio'r system' i gymryd mantais o'r cymorthdaliadau sydd ar gael. Hoffai Mr Matthews ffermio i'r dyfodol, fodd bynnag, yn sgîl y problemau diweddar sy'n wynebu amaethyddiaeth yn y DU, mae teimlo'i hun dan fwy a mwy o bwysau ariannol. Yn wir, roedd Mr Matthews wedi gobeithio y byddai cais llwyddiannus i'r cynllun Tir Gofal wedi lleddfu'r pwysau hyn. Fodd bynnag, gwrthodwyd ei gais i ddechrau ac, o ganlyniad, gorfodwyd Mr Matthews i ddod o hyd i gyflogaeth arall. Yn ei swydd newydd, bydd Mr Matthews yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos yn cael gafael ar gig eidion organig yng Nghymru ar gyfer archfarchnad gadwyn genedlaethol. Fe fydd, fodd bynnag, yn dal i ffermio ond yn rhan amser yn unig yn awr.

Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol ar fferm Aber Hyddnant

Ar hyn o bryd mae Aber Hyddnant yn perthyn i nifer o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Ym 1996, cofrestrodd y fferm gyda'r cynllun Cynefinoedd i reoli 10 Ha o laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau. Yn fwy diweddar, cofrestrwyd 0.75 Ha o goetir gyda'r cynllun Grant Coetiroedd, fodd bynnag, oherwydd dadl dros y gwaith ffensio ni wnaed unrhyw waith, hyd yma, dan y cynllun hwn. Ym 1999, dechreuodd y fferm ar raglen o addasu i ffermio organig dan y cynllun Cymorth Organig. Er bod yna fanteision economaidd ac amgylcheddol i'r cynlluniau presennol hyn, dim ond cynefinoedd penodol y mae'r cynllun Cynefinoedd yn eu targedu, tra nad yw'r cynllun Organig, sy'n cynnwys y fferm gyfan, yn cynnig symbyliadau i wneud gwaith amgylcheddol megis plannu gwrychoedd a choridorau nentydd. Er mwyn ymgymryd â rhaglen waith amgylcheddol fwy cynhwysfawr ar ei fferm, cyflwynodd Mr Matthews gais i ymuno â chynllun Tir Gofal ym 1999. Fodd bynnag, gwrthodwyd ei gais i ddechrau ac, o'r herwydd, ymddengys bod y cyfle i wella'r cynefinoedd ar fferm Aber Hyddnant er budd bywyd gwyllt wedi ei gollu. Asesir maint y cyfle hwn a gollwyd yn awr.

Y Cytundeb Tir Gofal

Manylion y cytundeb	Arwynebedd (Ha)
Adran y fferm gyfan	90.7 Ha
Nodweddion y tirlun: afon, llyn,	5
Nodweddion hanesyddol heb eu dynodi (nifer)	2
Adeiladau fferm traddodiadol (nifer)	2
Glaswelltir heb ei drin	15.6 Ha
Glaswelltir wedi ei drin yn rhannol	6.0 Ha
Coetir dail llydan	2.7 Ha
Yr Adran Wirfoddol	
Addasu glaswelltir wedi ei drin yn rhannol yn laswelltir heb ei drin	6.0 Ha
Creu ardal warchod ger y cyrsiau dwr	400m
Tyfu grawn gwanwyn wedi'I hau dan gnwd heb blaladdwyr	5.0 Ha
Sefydlu coetir dail llydan newydd	1.4 Ha
Sefydlu coridorau newydd ar lannau'r nentydd	250m
Llwybr newydd	1000m
Mynediad at ddibenion addysgol	90.7 Ha

Y Colledion Amgylcheddol posib sy'n Deillio o Gais Aflwyddiannus

Aber Hyddnant i gynllun Tir Gofal

Mae gan Aber Hyddnant nifer o nodweddion a chynefinoedd diddorol y byddai wedi cael eu rheoli at ddibenion amgylcheddol dan y cynllun Tir Gofal. Ar y fferm, ceir nifer o byllau bach wedi eu cysylltu gan gyfres o nentydd. Mae'r coridorau nentydd hyn yn gartref i rai planhigion tir gwlyb megis brwyn, yn ogystal â choed gwsgaredig. Ar hyn o bryd, nid oes ffens o amgylch y cyrsiau dwr hyn, a gall yr anifeiliaid bori hyd at ymyl y dwr. Mae pori fel hyn yn cael gwared â'r planhigion a geir ar ymyl y nant ac, o'r herwydd, nid oes cysgod ar gyfer bywyd gwyllt. Yn y cais hwn i gynllun Tir Gofal, roedd Mr Matthews wedi paratoi i sefydlu 250m o goridorau newydd ger ymyl y nentydd ynghyd â 1.4 Ha o goetir dail llydan newydd; byddai'r rhan fwyaf o'r coetir hwn wedi cael ei leoli ar hyd y nentydd. Byddai'r ddau brosiect rheoli hwn wedi rhoi cyfle i'r planhigion ger y nant adfywio ar ôl y pori, a byddai wedi rhoi cysgod i anifeiliaid megis y dyfrgi. Tra gall dyfrgwn symud ar draws y wlad agored, mae'n well ganddynt gadw at goridorau nentydd lle mae yna lawer o blanhigion. Un o'r camau gweithredu ar gyfer dyfrgwn oddi mewn i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yw "*Ceisio sicrhau cytundebau rheoli a chynlluniau symbylu i roi ystyriaeth i ofynion y dyfrgi yn y manau lle maent yn trigo*". Mae'n amlwg bod gwrthod cais Mr Matthews i gynllun Tir Gofal wedi mynd yn groes i gyngor y cynllun gweithredu hwn.

Ceir 32 o gaeau yn Aber Hyddnant ac mae ganddynt oll wrychoedd traddodiadol yn derfynau iddynt. Mae llawer o'r terfynau hyn wedi cael eu difrodi drwy gael eu pori neu eu sathru oherwydd y lefelau stocio uchel a ddefnyddir mewn dulliau ffermio modern. Mae'r costau uchel o gynnal a chadw'r terfynau hyn, yn anffodus, wedi golygu nad yw Mr Matthews wedi gallu fforddio gwneud gwaith cynnal a chadw hollbwysig. Er nad oedd Mr Matthews wedi cynnwys unrhyw waith adfer gwrychoedd arfaethedig yn ei gais i gynllun Tir Gofal, gan na chredai y byddai'r taliad wedi cyfateb i'r gwariant a oedd yn ofynnol, byddai'r gwrychoedd yn

dal wedi elwa o gynllun fferm gyfan Tir Gofal, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob terfyn traddodiadol gael ei gynnal gyda sribyn gwarchod 1m. Byddai'r sribyn hwn wedi helpu i warchod y gwrychoedd rhag niwed pellach drwy fod y da byw yn eu pori neu eu sathru, yn ogystal â rhoi cyfle i'r planhigion ar hyd y gwrych adfywio. Mae'r tyfiant talach hwn yn hanfodol i warchod yr ysgyfarnogod sy'n byw yn Aber Hyddnant o ran ei fod yn cynnig llefydd iddynt orffwyso a magu rhai bach. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer ysgyfarnogod yn crybwyll y dylai cynlluniau amaeth-amgylcheddol annog ffermwyr i gynnal a chadw cynefinoedd addas ar gyfer yr ysgyfarnog.

Byddai gwarchod y gwrychoedd hefyd wedi gwella'r cynefin fel y gallai gefnogi amrywiaeth mwy o rywogaethau megis llygoden y gwair (*Microtus agrestis*). Byddai'r gwrychoedd mwy trwchus hefyd yn annog adar bach megis y dryw (*Troglodytes troglodytes*) y titw tomos las (*Parus caeruleus*) a'r aderyn du (*Turdus merula*). Er bod yr holl rywogaethau hyn yn gyffredin maent yn hefyd yn darparu bwyd i anifeiliaid sy'n uwch i fyny yn y gadwyn fwyd megis y dylluan wen (*Tyto alba*) a'r gwalch glas (*Accipiter nisus*).

Roedd Mr Matthews hefyd yn barod i addasu 6 Ha o laswelltir wedi ei drin yn rhannol yn laswelltir heb ei drin. Byddai hyn wedi golygu peidio â defnyddio unrhyw wrtaith na phlaladdwyr. Dros amser byddai'r lefelau maeth yn y pridd yn gostwng o'r lefelau artiffisial a grewyd gan y gwrtaith. Byddai hyn yn caniatáu i fwy o rywogaethau llysiâu a glaswellt, sy'n nodweddiadol mewn pridd niwtral, gystadlu gyda'r rhywogaethau amaethyddol hynod gystadleuol megis rhygwellt parhaol a meillion gwlanog, sy'n tueddu i fod â lle blaenllaw mewn glaswelltir sydd wedi ei drin. Drwy annog amrywiaeth o rywogaethau mewn glaswelltir heb ei drin, creir cynefinoedd sy'n cefnogi amrywiaeth mawr o drychfilod a rhywogaethau mwy. Felly, collwyd cyfle arall i wella bioamrywiaeth Cymru.

Er bod y 10 Ha o laswelltir heb ei drin eisoes yn cael ei reoli dan y cynllun Cynefinoedd, daw'r cytundeb hwn i ben ar 2004. Drwy gael ei dderbyn i gynllun Tir Gofal byddai'r cynefin hwn wedi cael ei warchod am 5 mlynedd arall. Nodau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ar gyfer dolydd tir isel yw "*rhwystru disbyddiad dolydd gwair tir isel sydd heb eu trin ledled y DU*" a "*sicrhau amodau ffafriol i dros 30% o'r adnoddau erbyn 2005, ac mor agos i 100% ag y bo'n ymarferol bosib erbyn 2015*". Fel dau o'r prif bartneriaid yn y cynllun gweithredu hwn, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig wedi rhoi ystyriaeth i ofynion dolydd tir isel wrth lunio cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Ymddengys bod hwn hefyd yn rhoi'r rheidrydd arnynt i geisio â chyrraedd y nod o 100% erbyn 2015.

Mae gwrthod cais Aber Hyddnant i gynllun Tir Gofal wedi golygu bod dau o rywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru a'r DU, sef yr ysgyfarnog a'r dyfrgi, nad ydynt yn cael y warchodaeth y maent yn ei haeddu. Yn bwysicach fyth, mae'r dyfrgi yn rhywogaeth a gynhwysir yn Atodiad II cyfarwyddeb cynefinoedd UE. Byddai'r ddwy rywogaeth hon yn elwa o'r rheolaeth a oedd yn y cais i gynllun Tir Gofal.

Y Goblygiadau Economaidd yn sgîl cael ei Wrthod gan gynllun Tir Gofal
Amcangyfrifir y byddai Mr Matthews yn derbyn oddeutu £6000 o incwm y flwyddyn drwy'i gais Tir Gofal. Byddai'r rhan fwyaf o hwn, fodd bynnag, yn cael ei ddefnyddio yn erbyn yr incwm y byddai'n ei gollu yn sgîl gofynion y cynllun i leihau nifer y da byw ar y fferm. Byddai'n cael rhagor o incwm hefyd drwy grantiau ar gyfer gwaith cyfalaf; fodd bynnag, byddai'n rhaid gwario'r rhan fwyaf o'r incwm hwn ar ddeunyddiau. Mae'n amlwg nad yw Mr Matthews, fel y rhan fwyaf o ffermwyr eraill, yn debygol o weld cynnydd sylweddol yn incwm y fferm o'r cynllun Tir Gofal. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod lle mae prisiau da byw yn isel ac yn anwadal, byddai Mr Matthews yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i ennill ffynhonnell incwm ddiogel, y byddai'r cynllun Tir Gofal wedi'i rhoi.

Roedd Mr Matthews wedi gobeithio y byddai Tir Gofal wedi helpu i ategu'r incwm isel y mae'n ei gael ar hyn o bryd o'r fferm. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y cynllun Tir Gofal wedi ei wrthod yn golygu bod yn rhaid iddo yn awr gymryd gwaith arall oddi ar y fferm, a dim ond ffermio yn rhan amser.

Crynodeb

Mae Aber Hyddnant yn enghraifft o fferm da byw tir uchel sydd â dwy rywogaeth dan fygythiad yn byw o fewn ei therfynau; sef y dyfrgi a'r ysgyfarnog. Cynigia Tir Gofal gyfle i wella amgylchedd y fferm ar gyfer y rhywogaethau hyn. Fodd bynnag, golyga'r diffyg arian ar gyfer y cynllun y bydd cynefinoedd pwysig yn dal i ddiflannu, gan beryglu bodolaeth yr anifeiliaid prin hyn. Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru a'r DU i'r dyfrgi a'r ysgyfarnog yn nodi'n benodol y dylid defnyddio cynlluniau megis Tir Gofal i roi ystyriaeth i ofynion y rhywogaethau hyn. Mae yna ryw gymaint o newyddion da serch hynny. Yn sgîl arian ychwanegol ar gyfer Tir Gofal, derbyniwyd cais Mr Matthews yn yr ail rownd o gynigion. O ganlyniad i'r arian ychwanegol hwn, bydd y gwaith amgylcheddol a amlinellir yng nghais Aber Hyddnant i gynllun Tir Gofal, yn awr yn cael ei gyflawni. Mae'r astudiaeth achos hon felly yn enghraifft ddiddorol iawn sy'n dangos y manteision sylweddol y gellir eu cael drwy gynyddu'r arian ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

FFERM RHYDLANFAIR

Ffermwr: Mr Richard Williams
 Cyfeiriad: Fferm Rhydlanfair, Betws-y-Coed, LL24 0SS
 Ffôn: 01690 710267

Mae Rhydlanfair yn fferm fynydd da byw 231 Ha a saif ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae bron i hanner y fferm yn cael ei rheoli ar hyn o bryd dan gytundebau amaeth-amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys 150 Ha o gorlwyni grug; fe'i cydnabyddir fel tyfiant o bwysigrwydd rhyngwladol ac, o'r herwydd, fe'i rhestrir fel un o'r cynefinoedd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Ym 1999, roedd Mr Williams yn bwriadu ymestyn y rheolaeth amgylcheddol ar ei fferm drwy gyflwyno cais i gael ei dderbyn ar y cynllun amaeth-amgylcheddol, Tir Gofal. Yn ei gais, roedd Mr Williams wedi bwriadu gwella'r cynefinoedd presennol ar ei dir a chreu rhai newydd. Yn ogystal â'r manteision cyffredinol a geid i fywyd gwyllt, roedd y cytundeb hefyd yn cynnig rheoli ardal o laswelltir er budd cornchwilogod; rhywogaeth a restrir fel un o'r rhywogaethau blaenoriaeth uchel gan yr RSPB. Yn anffodus, gwrthodwyd y cais Tir Gofal, ac felly collwyd y cyfle i hybu bywyd gwyllt ymhellach ar fferm Rhydlanfair.

Y Fferm

Arwynebedd cyfan y fferm	231.0
Glaswelltir wedi ei drin	80.6
Glaswelltir wedi ei drin yn rhannol	25.0
Glaswelltir heb ei drin	1.3
Coetir dail llydan	3.1
Mynydd agored heb ei drin (grug a chorlwyni eraill)	121.0
LFA DA	13.0
LFA SDA	218.0
Busnes gwartheg bïff	
Buchod Sugno (nifer)	36
Heffrod (nifer)	25
Gwartheg stôr (nifer)	20
Lloeau (nifer)	
Busnes defaid	
Mamogiaid (nifer)	950
Wyn Benyw (nifer)	250
Wyn (nifer)	30
Dangosyddion perfformiad	
Wyn / mamogiaid (%)	100%

Y Ffermwyr

Mae Rhydlanfair yn cynnwys 121 Ha o dir sy'n eiddo i Mr Williams a 110 Ha ychwanegol y mae'n ei rentu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bu'r fferm yn nwylo teulu Mr Williams ers sawl cenhedlaeth. Cymerodd Mr Williams (56 mlwydd oed) yr awenau gan ei dad bron i 36 mlynedd yn ôl, ac yn awr mae'n bwriadu trosglwyddo'r fferm i'w fab ei hun sy'n gweithio ar y fferm ar hyn o bryd. Prif amcan Mr Williams dros y blynyddoedd nesaf yw talu ei ddyledion er mwyn gallu trosglwyddo'r fferm mewn cyflwr ariannol iach. Byddai hefyd yn hoffi ehangu'r fferm oherwydd bod gwell peiriannau yn golygu bod ffermio, i raddau helaeth, wedi dod yn swydd ran amser. Cred felly bod yn rhaid iddo ehangu'r fferm er mwyn sicrhau bod ganddo fferm sydd o faint ariannol ymarferol i'w fab. I'w helpu i gynnal safonau byw rhesymol a sicrhau pensiwn iddo'i hun, mae gan Mr Williams nifer o fythynnod twristiaid ar ei fferm. Mae hyn, ynghyd â swydd ran amser ei wraig fel ffisiotherapydd yn ffynhonnell hynod bwysig o incwm ychwanegol i'r teulu.

Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol yn Rhydlanfair

Mae gan Rydlanfair ddau le a reolir ar hyn o bryd er budd yr amgylchedd. Darn bychan o dir gwlyb yw'r cyntaf, ac mae rhan ohono wedi'i ddynodi yn SSSI. Ers 1996, rheolwyd y tir gwlyb fel cynefin ymylon dwr dan gytundeb y cynllun Cynefinoedd.

Ym 1990, ymgeisiodd Mr Williams am grant dan y Cynllun Grant Cadwraeth Fferm (FCGS) i galchu ac ail hadu'r tir mynydd ar ei fferm. Mae'r tir mynydd yn cynnwys corlwyni grug, gyda llus yn bennaf (*Vaccinium myrtillus*). Cydnabyddir bod y corlwyni grug yn rhyngwladol bwysig gan eu bod wedi eu cyfyngu'n bennaf i Ewrop ac Ynysoedd Prydain ac arfordir gorllewinol tir mawr Ewrop (UKBG, 1999). Mae rhostir uchel yn un o'r cynefinoedd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a lluniwyd cynllun gweithredu wedi'i brisio ar ei gyfer. Pe byddai Mr Williams wedi calchu ac ail-hadu ei dir, byddai'r cynefin pwysig hwn wedi diflannu. Fodd bynnag, pan glywodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol am gais FCGS Mr Williams, cysylltwyd ag ef gyda chytundeb rheoli arall a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Mr Williams dynnu ei gais am FCGS yn ôl ac yna lleihau nifer y stoc ar y mynydd. Derbyniodd Mr Williams gytundeb rheoli Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac mae'r corlwyni grug bellach yn ffynnu ar y mynydd.

Ym 1999, cyflwynodd Mr Williams gais i ymuno â Tir Gofal, ond oherwydd diffyg arian, gwrthodwyd ei gais. Mae crynodeb o'i gais i gynllun Tir Gofal i'w weld isod.

Y Cytundeb Tir Gofal

Manylion y cytundeb	Arwynebedd (Ha)
Adran y fferm gyfan	231Ha
Nodweddion y tirlun: creigiau, cerrig brig, afonydd	
Henebion Rhestredig (nifer)	2
Nodweddion hanesyddol heb eu dynodi (nifer)	1
Adeiladau fferm traddodiadol (nifer)	10
Mynydd agored heb ei drin (Grug a chorlwyni eraill)	121Ha
Tir wedi'i gau allan: heb ei drin	1.3Ha
Tir wedi'i gau allan: wedi ei drin yn rhannol	25.0 Ha
Coetir dail llydan	3.1Ha
Parcdir	4.8Ha
Yr adran wirfoddol	
Adfer terfynau traddodiadol y caeau	750m
Addasu glaswelltir	15.0Ha
Creu ardal warchod ger cyrsiau dwr	200m
Cynyddu lefelau dwr	15 Ha
Sefydlu coridorau newydd ar ymyl nentydd	200m
Mynediad i ardal newydd	151Ha
Mynediad at ddibenion addysgol	40Ha

Y Manteision Amgylcheddol a Gollwyd oherwydd y Cais

Aflwyddiannus i'r cynllun Tir Gofal

Roedd cais Tir Gofal fferm Rhydlanfair yn cynnwys nifer o gamau i warchod a gwella cynefinoedd a nodweddion pwysig. Mae gan y fferm 3.1 Ha o goetir dail llydan sydd heb ei ffensio ar hyn o bryd ac sydd felly'n cael ei bori gan stoc. Dan gynllun Tir Gofal byddai'r coetir hwn yn cael ei ffensio i gadw stoc allan. Byddai hyn wedi caniatáu i blanhigion daear y coetir ddatblygu a byddai'r coed yn adfywio'n naturiol. Byddai hyn yn annog amrywiaeth o anifeiliaid y coetir, megis gloyn byw brith y coed, llygoden y maes neu'r fronfraith (*Turdus philomelos*), i ddychwelyd a chynyddu.

Byddai parcdir ychwanegol hefyd wedi cael eu creu ar ddarn 4.8 Ha o laswelltir wedi ei drin, sydd â choed wedi eu gwasgaru arno ar hyn o bryd. Byddai'r cytundeb rheoli wedi ei gwneud hi'n ofynnol i leihau'r lefelau stocio i 1.5 o unedau o dda byw/ha/y fl a hefyd plannu coed ifanc newydd. Byddai hyn wedi cynnal ac annog datblygiad cynefin amrywiol. Byddai nodweddion parcdir a reolir yn llai dwys yn cael eu cadw, megis gadael pren marw yn y fan a'r lle. Mae pren marw yn gwneud cynefin i amrywiaeth o ffwng a chreaduriaid di-asgwrn-cefn sydd, yn eu tro, yn darparu bwyd i anifeiliaid eraill. Oherwydd i gais Mr Williams i gynllun Tir Gofal gael ei wrthod ni fydd cynefinoedd y coetir a'r parcdir hyn yn cael eu creu.

Yn ei gais roedd Mr Williams hefyd yn barod i adfer rhwng 500 a 999m o wrychoedd. Mae gwrychoedd a reolir yn iawn gyda phlanhigion daear da yn rhoi cysgod i amrywiaeth eang o

famaliaid ac adar bach. Maent hefyd yn darparu coridorau sy'n cysylltu coetiroedd gyda chynefinoedd lled-naturiol eraill y gall anifeiliaid symud ar eu hyd.

Rhwng 1984 a 1990 collwyd chwarter o gyfanswm hyd y gwrychoedd yng Nghymru. Diffyg rheolaeth, yn hytrach na chael gwared â nhw, oedd yn gyfrifol am ddiestrio'r rhan fwyaf o wrychoedd (y Cyngor Cefn Gwlad, 1997). Yn y DU, nod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer gwrychoedd hynafol a/neu wrychoedd sy'n gyfoeth o rywogaethau yw *'rhoi pen ar y golled net o wrychoedd sy'n gyfoeth o rywogaethau, drwy gael eu hesgeuluso neu eu dileu, erbyn y flwyddyn 2000, a'r holl wrychoedd, sy'n hynafol ac yn gyfoeth o rywogaethau, a gollir erbyn 2005 (UKBSG, 1995).*

Roedd Mr Williams hefyd wedi bwriadu creu ardal warchod 200m ar hyd un o gyrsgiau dwr y fferm, a sefydlu coridor newydd ger ymyl darn arall o nant am 200m o hyd. Ar hyn o bryd mae stoc yn pori hyd at ymyl y dwr. Golyga hyn mai dim ond glaswellt byr sydd ar lannau'r nentydd ac ychydig o dyfiant sydd yn y nant. Byddai pori llai, sy'n un o'r gofynion dan y cytundeb Tir Gofal, yn caniatáu i'r tyfiant ar ochr yr afon, sy'n cynnwys rhywogaethau tir gwlyb megis brwyn, dyfu'n dalach a dod yn fwy toreithiog. Byddai'r planhigion sydd yn tyfu yn y nant yn cynyddu hefyd. Byddai hyn yn darparu mwy o fwyd i drychfilod a byddai'n annog pysgod drwy ddarparu llefydd cuddio a bwyd. Byddai hyn, yn ei dro, yn denu adar megis trochwyr (*Cinclus cinclus*) a glas y dorlan (*Alcedo atthis*).

Ceir hefyd ddarn 15 Ha o laswelltir lle mae cornchwiglod yn magu, a lle'r oedd Mr Williams yn cynnig ei reoli er budd y cornchwiglod. Mae'r cornchwiglod yn un o rywogaethau blaenoriaeth uchel yr RSPB oherwydd gostyngiad sylweddol mewn niferoedd. Bu i boblogaethau cornchwiglod haneru yng Nghymru rhwng 1987 a 1993 (RSPB, 1998). Gyda rheolaeth briodol, y gobaith yw y bydd nifer y cornchwiglod magu yn cynyddu ar fferm Rhydlanfair. Drwy wrthod cais Mr Williams gwrthodir, unwaith eto, y warchodaeth y mae ar y gornchwiglen ei hangen.

Yn olaf, roedd Mr Williams hefyd yn barod i agor 150 Ha o dir mynydd ar gyfer y cyhoedd. Mae mynediad cyhoeddus o'r fath yn bwysig iawn i ardaloedd mewn Parc Cenedlaethol.

Goblygiadau Economaidd

Mae Mr Williams yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol sy'n effeithio ar amaethyddiaeth heddiw. Mewn ymateb i'r pwysau hwn mae Mr Williams wedi addasu nifer o adeiladau fferm yn fythynnod gwyliau. Mae'r arallgyfeirio hwn yn rhoi iddo ail incwm pwysig ac, yn y tymor hir, bydd yn rhoi pensiwn rhesymol iddo.

Amcangyfrifir y byddai Mr Williams yn derbyn oddeutu £18,500 o incwm fel taliadau blynyddol dan y cynllun Tir Gofal, gydag arian ychwanegol ar gyfer gwaith cyfalaf. Dywedodd Mr Williams mai un o'i brif amcanion yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf oedd trosglwyddo ei fferm i'w fab mewn cyflwr ariannol iach. Roedd Mr Williams wedi gobeithio y byddai Tir Gofal yn ei helpu i gyflawni'r amcan hwn.

Crynodeb

Mae Rhydlanfair yn enghraifft o fferm y gwrthodwyd ei chais i fod yn rhan o gynllun Tir Gofal. Canlyniad hyn yw na fydd llawer o gynefinoedd pwysig sy'n bodoli ar y fferm yn cael eu gwarchod. Yn arbennig, byddai cais Tir Gofal fferm Rhydlanfair wedi cyfrannu tuag at nodau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Gwrychoedd, yn ogystal ag annog gwarchod gornchwiglod, un o rywogaethau blaenoriaeth uchaf yr RSPB. Mae'r cyfle hwn i gefnogi bioamrywiaeth ar fferm Rhydlanfair bellach wedi'i gollu. Bydd hyn yn cael effaith gynyddol ar ei gynllun i drosglwyddo'r fferm i'w fab. Mae'r ffaith i Mr Williams gael ei wrthod gan

gynllun Tir Gofal, yn amlwg, wedi peri goblygiadau sylweddol i'r amgylchedd ac i Mr Williams, fel ei gilydd.

4 Dadansoddiad Economaidd

Yn yr adran hon ceir asesiad o'r arian ychwanegol sy'n ofynnol i alluogi Tir Gofal i wneud cyfraniad sylweddol i warchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Ceir hefyd ragfynegiad o'r manteision cymdeithasol-economaidd y gallai cynllun Tir Gofal eu sicrhau i ffermwyr Cymru.

TARGEDAU CYFRANOGIAD TIR GOFAL I GYRRAEDD TARGEDAU AMGYLCHEDDOL

I fod yn gymwys ar gyfer Tir Gofal, rhaid i ffermydd fod yn fwy na 3 Ha o faint a heb fod yn rhan o gynllun Tir Cymen na chynllun yr ESA eisoes. Yng Nghymru, ceir oddeutu 27,000 o ffermydd, ac mae 20,000 o'r rheini yn fwy na 3 Ha. Mae tair mil o'r ffermydd hyn, ar hyn o bryd, yn dal cytundebau Tir Cymen neu ESA². Felly, mae'r farchnad bosib ar gyfer Tir Gofal yn rhwng 17,000 ac 20,000 o gytundebau. Ni fyddai'n realistig, fodd bynnag, i ni ddisgwyl, na hyd yn oed anelu, i bob fferm gymwys gael ei derbyn ar y cynllun. Cynigir felly mai targed realistig o ffermydd i gael eu derbyn ar y cynllun Tir Gofal fyddai 50% o'r ffermydd cymwys, h.y. rhwng 8,500 a 10,000 o gytundebau, ar ôl 10 mlynedd. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar gyngor gan y Cyngor Cefn Gwlad (Parker & Pawson 1999) ac mae hefyd yn gysylltiedig â'r ffaith mai 47.2% o'r holl ardal gymwys a ymunodd â chynllun Tir Cymen (cynllun a ystyriwyd yn gynllun llwyddiannus). Felly, bydd y dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar lefel cyfraniad targed o rhwng 8,500 a 10,000 o gytundebau Tir Gofal.

GOFYNIION ARIANNU TIR GOFAL

Ar hyn o bryd ariennir Tir Gofal drwy Bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad. I ddechrau, dyrannwyd £3.2 miliwn i gynllun Tir Gofal er gallu ymrwymo i 300 o gytundebau ar gost flynyddol gyfartalog o £10,666 y cytundeb. Yn ddiweddarach cynyddwyd hwn £2.3 miliwn gan ymrwymo i 300 yn ychwanegol o gytundebau ar gost gyfartalog o £7667 yr un³. **Felly, yn ystod blwyddyn gyntaf Tir Gofal, bydd £5.5 miliwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu oddeutu 600 o gytundebau: disgwylir i gost gyfartalog pob cytundeb fod yn £9,166 y fferm.**

² Dylis nodi y bydd ffermydd sydd wedi ymrwymo i'r cynlluniau hyn ar hyn o bryd yn gymwys, yn y tymor hir, i ymuno â chynllun Tir Gofal ar ôl i'w cytundebau presennol ddod i ben.

³ Gellir esbonio'r gwahaniaeth yng nghostau cyfartalog y cytundebau a amlinellir uchod gyda'r ffaith mai'r ffermydd a dderbyniwyd i rownd gyntaf y cytundebau oedd y ffermydd hynny a gynigiai'r lefelau uchaf o fanteision amgylcheddol ac, felly, roeddent yn ddrutach i'w cyllido na ffermydd gyda gradd amgylcheddol is (y Pwyllgor Amaeth a Datblygiad Gwledig, 2000).

Ym mis Rhagfyr 1999, cyhoeddodd Nick Brown, y Gweinidog Amaeth, gynnig y dylai Adrannau Amaeth y DU ddefnyddio eu pwerau diamed, sydd yn awr yn bodoli yn sgîl diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin Agenda 2000 (Rheoliad UE 1259/1999), i addasu'r cymorthdaliadau cynhyrchu er mwyn darparu arian ychwanegol ar gyfer mesurau datblygu gwledig. Yng Nghymru, amlinellir y mesurau hyn yng Nghynllun Datblygu Gwledig (RDP) Cymru. Byddai'r addasiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno ar 2.5% yn 2001/02 gan godi'n raddol i 4.5% erbyn 2005/06⁴. Amcangyfrifir y byddai addasu yn rhyddhau oddeutu £39 miliwn yng Nghymru dros chwe blynedd hyd at 2006/07 (Tabl 1). Mae Trysorlys y DU, hefyd, wedi addo rhoi cyllid cyfatebol i'r arian hwn, yn amodol ar ganlyniad y rownd wario nesaf. Amcangyfrifir, felly, y gallai cyllideb ychwanegol o oddeutu £78 miliwn fod ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol ei wario ar gynllun Datblygu Gwledig Cymru dros y chwe mlynedd nesaf (Tabl 1). Bydd cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Cynllun, felly, yn cael ei chynyddu o £374.5 miliwn yn 2000/01 i £452.5 miliwn yn 2006/07.⁵ Y bwriad yw, o'r £78 miliwn ychwanegol a godir drwy addasu, y caiff £18.5 miliwn ei dargedu i gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal a £29 miliwn i'r cynllun ffermio Organig. Daw hyn â chyfanswm y gwariant ar y ddau gynllun hwn dros y cyfnod o 2000/01 i 2006/07 i £108.9 miliwn a £33.5 miliwn (Tabl 2). Ni fydd gwariant ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn newid yn sgîl yr addasu a bydd yn aros yn £55.9 miliwn. **Bydd y gwariant blynyddol ar gynllun Tir Gofal yn cynyddu o £5.5 miliwn ym 1999/2000 i £21.4 miliwn yn 2006/07. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant ar gynllun Tir Gofal, dros y cyfnod hyd at 2006/07, yn £114.4 miliwn.**

Tabl 1: Addasu ac arian cyfatebol yng Nghymru 2001 – 2006

	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05	2005-06	2006-07	Cyfanswm
Cyfradd Addasu	2.5%	3.0%	3.5%	3.5%	4.5%	4.5%	
Arian yn sgîl Addasu (£m)	4.1	5.1	6.1	6.4	8.5	8.8	39.0
Arian gan Lywodraeth y DU (£m)	4.1	5.1	6.1	6.4	8.5	8.8	39.0
Cyfanswm yr arian ychwanegol ar gyfer RDP Cymru (£m)	8.2	10.2	12.2	12.8	17.0	17.6	78.0
Arian ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer Tir Gofal (£m)	-	1.5	3.5	4.0	4.5	5.0	18.5

Amcangyfrifwyd rhagfynegiad o nifer y cytundebau Tir Gofal y gallai'r arian cyfredol ei sicrhau bob blwyddyn drwy rannu'r gwariant blynyddol a ddyrannwyd i gynllun Tir Gofal gyda chost gyfartalog flynyddol cytundeb (£9,166) (

Tabl 2). **Rhagwelir, erbyn 2006/07, y gellid gwneud 2335 o gytundebau gyda'r dyraniad arian cyfredol i gynllun Tir Gofal. Dim ond chwarter o'r targed, sef 8,500 i 10,000 o gytundebau, a amlinellwyd yn gynharach yw hwn. Ar sail y gwariant blynyddol cyfartalog o £9,166 y cytundeb, amcangyfrifir y byddai'n costio rhwng £77.91 miliwn a £91.66 miliwn y flwyddyn i gyrraedd y targed o 8,500 i 10,000 o gytundebau Tir Gofal**

⁴ Dylid nodi mai'r gyfradd addasu uchaf a ganiateir dan Reoliadau Undeb Ewrop yw 20%.

⁵ Mae dadansoddiad manwl o effaith addasu yng Nghymru i'w weld ym mhapur polisi Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad (2000) 'Addasu Cymorthdaliadau Ffermydd'.

(Tabl 3). Dadleuir, felly, y byddai'n rhaid cynyddu'r gyllideb a ddyrannwyd i gynllun Tir Gofal bedair gwaith yn fwy er mwyn cyrraedd targedau amgylcheddol y cynllun.

Tabl 2: Rhagfynegiad o'r gwariant a'r cytundebau Tir Gofal.

	1999-00	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05	2005-06	2006-07	Cyfanswm
Gwariant RDP ar Tir Gofal (cyn yr addasu) (£m)	5.5	7.5	10.9	12.4	13.4	14.4	15.4	16.4	95.9
Arian ychwanegol i Tir Gofal yn sgîl addasu (£m)	-	-	-	1.5	3.5	4.0	4.5	5.0	18.5
Gwariant RDP ar Tir Gofal (gan gynnwys addasu) ¹ (£m)	5.5	7.5	10.9	13.9	16.9	18.4	19.9	21.4	114.4
Nifer y cytundebau bob blwyddyn ²	600	818	1189	1516	1844	2007	2171	2335	
Nifer y cytundebau newydd bob blwyddyn ³	600	218	371	327	327	164	164	164	2335

1 Sylwer bod 'Cyfanswm' y gwariant RDP a ddyfynnir yma (£114.4 miliwn) yn seiliedig ar y £108.9 miliwn rhagweledig a glustnodwyd ar gyfer Tir Gofal dros gyfnodau 2000/01 i 2006/07 ynghyd â'r £5.5 miliwn a wariwyd yn ystod 1999/2000.

2 Amcangyfrifwyd nifer y cytundebau a ariennir bob blwyddyn drwy rannu'r gwariant RDP ar gynllun Tir Gofal gyda chost flynyddol gyfartalog cytundeb (£9,166).

3 Roedd amcangyfrif o nifer y cytundebau Tir Gofal newydd a wnaed bob blwyddyn yn seiliedig ar y cynnydd ffiniol yn yr arian ar gyfer y cynllun.

Tabl 3: Amcangyfrif o gyfanswm y gwariant blynyddol ar gynllun Tir Gofal i gyrraedd targedau o 8,500 a 10,000 o gytundebau.

	8,500 O GYTUNDEBAU	10,000 O GYTUNDEBAU
Cost Cyfartalog Cytundeb: £7667	£65.17 miliwn	£76.67 miliwn
Cost Cyfartalog Cytundeb: £9166	£77.91 miliwn	£91.66 miliwn
Cost Cyfartalog Cytundeb: £10667	£90.67 miliwn	£106.67 miliwn

MANTEISION CYMDEITHASOL-ECONOMAIDD CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL

Ym 1995, gwnaeth ADAS asesiad o effeithiau cymdeithasol-economaidd Tir Cymen. Dynoda'r adroddiad fod Tir Cymen wedi cynyddu incwm y ffermwyr a oedd yn rhan o'r cynllun £1616 y flwyddyn ar gyfartaledd. Amcangyfrifodd adroddiad ADAS hefyd fod Tir Cymen yn cynhyrchu 29 diwrnod o waith amgylcheddol y flwyddyn ar bob un o'r ffermydd sampl, yn ogystal â diogelu 19 diwrnod arall o waith amgylcheddol a wnaed eisoes ar ffermydd. Drwy allosod yr amcangyfrifon hyn, awgrymant y byddai Tir Cymen, yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun, wedi cynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 154.4 o flynyddoedd gwaith person.

A thybio bod effeithiau cymdeithasol-economaidd Tir Gofal yn debyg i'r rheini a gynhrychir o gynllun Tir Cymen⁶, gellir gwneud y rhagfynegiad canlynol. Yn ystod blwyddyn gyntaf Tir Gofal, bydd ychydig o dan £1 miliwn o incwm ychwanegol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y 600 sy'n rhan o'r cynllun. Erbyn 2006, bydd yr incwm ychwanegol a gynhrychir ar gyfer y ffermwyr hyn yn codi i oddeutu £3.7 miliwn y flwyddyn. O safbwynt cynhyrchu cyflogaeth, dylai Tir Gofal gynhyrchu 17400 diwrnod o waith (neu 67 o flynyddoedd gwaith person⁷) ar brosiectau amgylcheddol yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun a 67715 diwrnod (neu 260 o flynyddoedd gwaith person) yn 2006/07.

Dadleuwyd uchod y dylai Tir Gofal geisio denu 10,000 o ffermwyr i'r cynllun. Amcangyfrifwyd bod y gost flynyddol o gyrraedd y targed hwn yn oddeutu £91.66 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y byddai'r buddsoddiad hwn yng nghynllun Tir Gofal yn cynhyrchu £16 miliwn o incwm y flwyddyn i ffermwyr Cymru ac oddeutu 1115 o flynyddoedd gwaith person i wneud gwaith amgylcheddol. I gymharu, amcangyfrifwyd bod cyfanswm incwm net ffermydd o amaethyddiaeth yng Nghymru yn £202 miliwn ym 1998, tra bod cyflogaeth ar ffermydd yn oddeutu 63,000. Mae'n amlwg y byddai buddsoddi yng nghynllun Tir Gofal yn cynhyrchu manteision cymdeithasol-economaidd i'r economi yng Nghymru.

⁶ Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar y ffaith bod y ddau gynllun yn eithaf tebyg o safbwynt y cytundebau rheoli a gynigiant a lefelau'r taliadau.

⁷ Tybir bod blwyddyn waith person yn cyfateb i 260 o ddyddiau gwaith.

5 Casgliadau

Lansiwyd Tir Gofal ym 1999 fel y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, arloesol ar gyfer Cymru-gyfan. Mae'r cynllun yn rhoi taliadau iawndal blynyddol i ffermwyr am gydymffurfio â'r adran orfodol a dilyn côd ymarfer amgylcheddol da ar y fferm gyfan a hefyd am warchod a rheoli cynefinoedd allweddol. Yn ychwanegol, gall ffermwyr ddewis o amrywiaeth o opsiynau gwirfoddol i adfer neu greu cynefinoedd neu nodweddion pwysig. Mae taliadau unwaith-ac-am-byth hefyd ar gael i dalu costau gwaith penodol a wneir gyda'r bwriad o warchod a rheoli'r cynefinoedd a'r nodweddion.

Mae gan lywodraeth y DU rwymedigaeth gyfreithiol, dan Gyfarwydddebau Adar a Chynefinoedd UE, i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau sydd dan fygythiad. I fodloni'r rhwymedigaethau hyn o safbwynt bioamrywiaeth, lluniwyd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Yng Nghymru, ceir 12 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd a 54 ar gyfer rhywogaethau. Nod y mesurau a gynhwyswyd yng nghynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal yw amddiffyn a gwella naw o'r cynefinoedd hyn sydd dan fygythiad. Mae'r adroddiad hwn wedi dangos, gan ddefnyddio enghreifftiau o bedair fferm yr astudiaeth achos, sut y mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru wedi cyfrannu at warchod a gwella pedwar cynefin sydd dan fygythiad (corlwyni crug, coetir dail llydan, dolydd tir isel, gwrychoedd) ac o leiaf bedair rhywogaeth warchodedig (gan gynnwys y dyfrgi, yr ysgyfarnog, gwyddau bronwyn yr Ynys Las, a chornchwiglod). Mae oddeutu 80% o Gymru wedi'i dosbarthu yn dir amaethyddol. Mae'n amlwg bod yn rhaid gwarchod y bioamrywiaeth sy'n bodoli ar ffermydd Cymru er mwyn bodloni rhwymedigaethau bioamrywiaeth y DU. Mae'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cynnig peirianwaith i gyflawni'r amcan hwn.

Mae'r gyllideb flynyddol a neilltuwyd ar gyfer Tir Gofal ar hyn o bryd yn £5.5 miliwn, a bydd yn cynyddu i £16.4 miliwn yn 2006/07. Dim ond 3.0% o gyfanswm y cymorthdaliadau fferm uniongyrchol yng Nghymru yw'r gyllideb gyfredol hon. Disgwylir i arian ychwanegol, yn sgîl addasu, ddarparu £18.5 miliwn ar gyfer Tir Gofal ar gyfer y cyfnod pum mlynedd hyd at 2006/07. Rhagwelir, gyda'r arian hwn a ddyrannwyd, y gellir gwneud oddeutu 2,335 o gytundebau Tir Gofal ar ffermydd yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod angen 10,000 o gytundebau i gyrraedd targedau bioamrywiaeth Tir Gofal. I gyrraedd y targed hwn, rhaid cynyddu'r arian a ddyrennir i gynllun Tir Gofal bedair gwaith. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn argymhell bod y llywodraeth yn gwneud mwy o ymrwymiad i gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

6 Llyfryddiaeth

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1997) *Gwrychoedd hynafol a/neu wrychoedd sy'n gyfoeth o rywogaethau*.

Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig [Cynulliad Cenedlaethol Cymru] (2000) *Addasu cymorthdaliadau ffermydd*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Caerdydd

Parker, D & Pawson, B. (1999) *Tir Gofal: Cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Cymru-gyfan*. Bwletin Sefydliad y Rheolwyr Ecologol ac Amgylcheddol: *In practice*

RSPB (1998) <http://www.rspb.org.uk>

UKBG [Grwp Bioamrywiaeth y DU] (1998) *UK Biodiversity Group. Tranche 2 Action Plans. Volume I – vertebrates and vascular plants*. English Nature, Peterborough.

UKBG [Grwp Bioamrywiaeth y DU] (1999) *UK Biodiversity Group. Tranche 2 Action Plans. Volume VI – terrestrial and freshwater species and habitats*. English Nature, Peterborough.

UKBSG [Grwp Bioamrywiaeth y DU] (1995) *Biodiversity: The UK Steering Group Report, Volume 2: Action Plans*. Llyfrfa ei Mawrhydi, Llundain.